Mae gwaith yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol o ofalu am y tir yn ei gofal yn gallu bod yn anodd.

Defnyddir ein cefn gwlad gan amrywiaeth eang o bobl ar gyfer pob math o weithgareddau. Ambell dro mae'r gweithgareddau hyn yn gwrthdaro.

BETH SYDD YN FY NGHAE I?

Defnyddiwch y daflen arolwg hon i edrych yn ofalus ar gae sydd, i ddechrau, yn ymddangos yn gyffredin dros ben.

Enw'r cae (os oes enw iddo):

Edrychwch yn fanwl ar y cae o'ch blaen.
I ba beth y defnyddir y cae yn eich tyb chi?

Pam ydych chi'n meddwl ei fod yn cael ei ddefnyddio fel hyn?

Pwy ydych chi'n meddwl sy'n gofalu am y cae?

- Gwnewch fraslun gofalus o'ch cae ar bapur arall. Nodwch arno'r pethau sy'n naturiol a'r pethau y credwch chi a wnaed gan bobl. Ceisiwch ddangos sut mae'r cae yn cael ei ddefnyddio, y gwahanol blanhigion sy'n tyfu ac unrhyw beth arall sy'n bwysig yn eich tyb chi.

- Meddyliwch am derfyn eich cae chi, ac eraill. Ystyriwch y rhesymau dros ddewis y deunydd a ddefnyddiwyd. Ydy o'n chwaethus, yn hawdd i'w gynnal, yn hawdd mynd i mewn ac allan, yn rhad, yn draddodiadol, neu'n addas ar gyfer yr amgylchedd lleol?

Gêm y Grid

Lle bod gweithgareddau yn croestorri ar y grid ar y dudalen hon, trafodwch mewn grwp bychan a allent weithio'n dda gyda'i gilydd. Os ydynt yn gwella ei gilydd, dylech roi tic. Os ydynt yn gwrthdaro, rhowch groes. Os nad ydych yn sicr, neu os nad yw'r gweithgareddau yn berthynol i'w gilydd, dylech adael y sgwâr yn wag.

Trafodwch un o safleoedd cefn gwlad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol lle buoch ar ymweliad. A fyddech chi'n gwneud unrhyw beth i gynyddu ei werth o ran mwynder? Meddyliwch sut allai eich awgrymiadau effeithio ar y trawstoriad llawn o ymwelwyr.



Beth am baratoi drama fach yn seiliedig ar ganlyniadau eich tabl?